# Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddiwylliant, Llyfrgelloedd & Gwybodaeth

## Hydref 2022

# Croeso

Mae wedi bod yn ddeufis heriol a chythryblus, ac er gwaethaf hyn, mae staff yn parhau i ddarparu gwasanaeth eithriadol. Diolch am bopeth rydych yn ei wneud. Sylwch ein bod wedi newid ein henw i **Ddiwylliant, Llyfrgelloedd a Gwybodaeth** i adlewyrchu gwaith ein gwasanaeth yn well. Cofiwch ddiweddaru eich llofnodion e-bost a gohebiaeth.

**Caffi Staff**

Diolch i bawb a ddaeth i sesiwn fyfyrio staff. Rwy'n gobeithio y gall y rhain ysgogi cydweithio a datrys problemau ar draws ein hadain. Yn y dyfodol byddwn yn galw'r rhain yn sesiynau **Caffi Staff** dros y we felly cadwch lygad am wahoddiadau i'r rownd nesaf o sesiynau. Dewch draw pryd y gallwch ac ymunwch â thrafodaethau anffurfiol am faterion cyffredin.

**Cyfarfod y Tîm?**

Un o ychydig o syniadau da o'r sesiwn fyfyrio ddiwethaf i staff yw helpu cydweithwyr i roi enwau i wynebau a dysgu am bobl eraill sy'n gweithio yn ein hadain. Os ydych chi'n hapus i wneud hynny, anfonwch lun ohonoch eich hun i gael eich cynnwys yn y diweddariad nesaf ynghyd â brawddeg i ddweud beth rydych chi'n ei fwynhau fwyaf am eich rôl.

Pwnc arall sy'n codi'n aml yw'r defnydd o Teams. Rydym wedi ystyried yr opsiwn ar gyfer hyfforddiant staff ond nid yw'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Ond, gallwch ddilyn y ddolen hon i weld nifer o fideos defnyddiol o ran sut i gael y mwyaf o Teams: Microsoft Teams Introduction Training (conwy.gov.uk).

**Costau byw cynyddol**

Mae ein llyfrgelloedd yn darparu Croeso Cynnes gwych i'n cymunedau, y gaeaf hwn yn fwy nag erioed. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod hwn yn gyfnod heriol i staff hefyd. Mae'n bwysig i ni ofalu amdanom ein hunain. Os ydych chi'n cael pethau'n anodd, nid ydych chi ar eich pen eich hun. Gall estyn allan at gydweithiwr dibynadwy am sgwrs wneud gwahaniaeth mawr. Mae nifer o staff yn ein tîm sydd yma i'ch cefnogi.

**Ein Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd** Meddwl yw**:** Sharon Morgan, Morag Wright. Gaynor Jones, Amy Joinson, Eunice Roberts, Anne Thomas, Eirian Jones, Kate Brown, Tracey Payne-Davies, Leah Edwards, Medi Ashton.

Ein **Cefnogwyr Amser i Newid** yw: Denise Williams-Usher, Helen Goddard

**Diolch,**

***Helen***

## Diwylliant

Cynhaliwyd ein sesiwn 'Sgwrs Ddiwylliannol' ym Mostyn ar 13 Hydref i gasglu mewnbwn ac adborth y sector i gynllun gweithredu **Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy,** a fydd yn barod i'w rannu cyn y Nadolig. Mae cyfarfodydd Tîm Tref dilynol wedi'u cynnal neu wedi'u trefnu i barhau i ddatblygu gweithgareddau strategaeth ddiwylliant lleol ac mae nifer o 'sgyrsiau pecyn cymorth' wedi'u cynnal ar y strategaeth ddiwylliant ar gyfer staff ac aelodau.



Cefnogodd Creu Conwy weithgareddau ychwanegol gwych ar draws ein llyfrgelloedd fis Medi eleni fel rhan o **Drysau Agored.** Popeth o ddawnsio fertigol yn y Ganolfan Ddiwylliant i helfa drysor i deuluoedd ym Mae Colwyn. Mae gŵyl gerddoriaeth **Gigs y Gaeaf** yn mynd yn fyw rhwng y 25 Tachwedd a 4 Rhagfyr, felly cadwch lygad am y rhaglen sydd i'w chyhoeddi yn yr ychydig wythnosau nesaf.

Mae **Casglu**, prosiect Creu Conwy i fapio canfyddiadau a chysylltiadau pobl â diwylliant ledled y sir yn cael ei gwblhau. Mae Gwenno Eleri Jones o *DoWell Associates* yn tynnu straeon at ei gilydd ar fap anferth a fydd yn dal yr hyn y mae pobl Conwy yn ei werthfawrogi am ddiwylliant a threftadaeth leol.

*Suspended Stories*: Canolfan Ddiwylliant Conwy

Mae prosiect newydd Creu Conwy, **Amdani Conwy!** wedi derbyn £250,000 o arian o gronfa *Spirit of 2012 Volunteering Cities.* Bydd y grant mawreddog hwn yn cefnogi datblygiad gwirfoddoli mewn digwyddiadau ledled y sir gyfan a chaiff ei gyflwyno mewn partneriaeth â Chelfyddydau Anabledd Cymru a CGGC gyda phwyslais ar gyfleoedd gwirfoddoli diwylliannol cynhwysol, hygyrch a hwyliog.

Mae Ceri yn gweithio ar ail-frandio'r cynllun Llysgenhadon Ifanc gyda'r cynllun **Cefnogwyr Diwylliant** sydd newydd ei enwi – sy'n ymwneud â rhoi cyfle i bobl ifanc 16-25 oed sydd â diddordeb yn y celfyddydau a diwylliant ennill profiad gwerthfawr o fewn y sector gyda chyfleoedd i wirfoddoli mewn digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol amrywiol ledled y sir. Bydd cyhoeddiad am hyn yn fuan a gobeithiwn gysylltu hyn ag Amdani! Unwaith y bydd swyddogion prosiect y prosiect wedi dechrau yn eu swyddi.

Lansiodd y tîm diwylliant y **Sesiynau Fforio Celf Blant Bach** yn Llyfrgell Bae Colwyn y mis hwn – mae'r sesiynau hyn yn cael eu hariannu gan grant CCG ac ar agor i blant 2 – 5 oed

a’u hoedolion. Bydd dwy sesiwn arall yn cael eu cynnal eleni, gan weithio gyda thema Nadolig.

Mae gweithdai celf weledol hanner tymor **Caru Celf** mewn partneriaeth ag Urdd Conwy yn cael eu cynnal yn neuadd bentref Betws-yn-Rhos. Arweinir y sesiynau gan yr arlunydd Jwls Williams gan gynnig cyfle i gyfranogwyr arbrofi gyda thechnegau newydd o gyfosodiad o ffotograffau, gludwaith, peintio a defnyddio stensil.




Mae **Lleisiau Carneddau** yn brosiect newydd gan y tîm diwylliant sy’n gweithio mewn partneriaeth â phartneriaeth Tirlun y Carneddau a’r Arlunydd Rachel Evans sydd wedi bod yn cynnal gweithdai gyda disgyblion Ysgol Aberconwy gan ddefnyddio recordiadau hanes ar lafar o straeon o ardal y Carneddau i ysbrydoli gwaith celf greadigol. Bydd y prosiect yn cyrraedd ei anterth gydag arddangosfa yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy ar ddiwedd y flwyddyn.





Mae'r **tîm Archifau** wedi bod yn cynnal allgymorth digidol ar gyfer ysgolion gwledig gyda 2 allan o 3 phecyn pwrpasol wedi'u dosbarthu i ysgolion cynradd yn Nolwyddelan a Chapel Garmon ac mae un arall ar gyfer Betws-y-Coed yn cael ei baratoi. Mae prosiect ar wahân ar gyfer blwyddyn saith Ysgol Dyffryn Conwy hefyd ar y gweill. Mae staff o dîm Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi ymweld i gwblhau'r cynlluniau ar gyfer gosod terfynellau pwrpasol yn yr Archif ac yn Llyfrgell Llanrwst. Bydd y rhain yn darparu pwyntiau mynediad cyhoeddus i adnoddau gweledol a chlywedol sy’n cael eu cadw gan y Llyfrgell Genedlaethol a bydd rhaglen o weithgareddau yn cyd-fynd â nhw.

Rydym yn falch iawn o groesawu Rachel Evans fel ein swyddog **datblygu amgueddfa** a chefnogi achredu newydd. Ymunodd Rachel, sy’n hanu o Benmachno, â ni ym mis Medi o’i rôl flaenorol gyda Cadw. Mae Rachel wedi bod yn gweithio ar Ŵyl Amgueddfeydd Cymru, ynghyd â Shirley, ein swyddog **Cyfuno.** Mae'r Ganolfan Ddiwylliant wedi'i haddurno â baneri gyda gweithgareddau i blant a phobl ifanc. Mae pedwar gweithdy celf Rufeinig hefyd yn cael eu cynnal trwy gydol yr hanner tymor gyda'r arlunydd Wendy Couling. Mae Shirley a Rachel

hefyd yn gweithio ar brosiect i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau gyda thîm yr Archif, Canolbwynt Penmachno a’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan gynnwys galwad am luniau a gwrthrychau hanesyddol gan weithio gyda Casgliad y Werin Cymru.

Mae casgliadau amgueddfa’r Ganolfan Ddiwylliant a blychau hel atgofion yn cael eu cynnwys mewn prosiect o’r enw **Tŷ Atgofion Cymru**. Prosiect *National Museums Liverpool* oedd hwn i ddechrau, ac mae staff o NML wedi ymuno ag Amgueddfa Cymru, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, i gynhyrchu ap hel atgofion dwyieithog ar gyfer pobl sy’n byw gyda Dementia a’u teuluoedd. Mae deg eitem bellach wedi’u digideiddio a’u llwytho o gasgliadau Conwy.

Agorodd arddangosfa gyfredol **Oriel Colwyn** ar 15 Hydref. Mae ***35 SUMMERS*** yn dathlu tua thri deg pum mlynedd o ffotograffau cerddoriaeth gan Mark McNulty. Dyma’r ôl-sylliad llawn cyntaf o’i archif eang o ffotograffau cerddoriaeth sy’n cynnwys bron 400 o ffotograffau. Gellir prynu pob print unwaith ac am byth a bydd Mark yn ei lofnodi. Bydd elw o'r gwerthiant yn cael ei rannu rhwng Banc Bwyd Conwy ac Oriel Colwyn. Archebwch eich un chi nawr!




Cynhaliwyd **Clwb Ffilm Ffoto** diweddaraf Oriel Colwyn ddydd Mercher 26 Hydref ac roedd yn cynnwys **RAY & LIZ** gan y ffotograffydd uchel ei barch Richard Billingham. Dangoswyd y ffilm AM DDIM, gyda'r opsiwn i roi i Fanc Bwyd Bae Colwyn. Mynychodd mwy na 90 o bobl ar y noson.







*“Helo Paul, diolch yn fawr iawn am ollwng y rhoddion Gwych. Mae’n hyfryd iawn ac mae’r hyn a wnaethoch drefnu i gefnogi Banc Bwyd Conwy yn cael ei werthfawrogi’n fawr. Bydd yn help ENFAWR i ni.”*

Mae gwaith **State of Independents** (cam 2), ynghyd â Brandio Colwyn bellach ar ffenestri siopau gwag Peacocks a ffenestri *The Imperial Hotel* ym Mae Colwyn. Mae’r cam hwn o’r

prosiect wedi ymgysylltu â 40 o fusnesau Annibynnol lleol ychwanegol yng nghanol tref Bae Colwyn ac yn eu dathlu (www.stateofindependents.com).




**Dyma Fi** yw prosiect a ariennir gan CultureStep i ymgysylltu â thenantiaid hŷn o fewn tai Cartrefi Conwy. Tynnwyd llun tenantiaid yn eu cartrefi eu hunain gydag eitemau o bwys iddynt. Mae straeon am eu bywydau wedi eu clywed a'u recordio gyda storïwr. Bydd y gwaith gorffenedig (lluniau a geiriau) yn cael ei goladu i arddangosfa ac yn cael ei gyhoeddi yn Oriel Colwyn.

# Llyfrgelloedd

## Croeso Cynnes

Mae CBSC yn postio taflen i bob cartref yn Sir Conwy rhwng 2 a 16 Tachwedd i roi cyngor a gwybodaeth ar yr argyfwng costau byw. Bydd hyn yn hyrwyddo ystod o wasanaethau, gan gynnwys ein llyfrgelloedd, yn ogystal â rhannu'r rhif cymorth cymunedol a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn ystod pandemig Covid (01492575544). Diolch i'n Tîm Gwybodaeth gwych am baratoi i ddelio â'r galwadau hyn.

Mae llyfrgelloedd yn darparu diodydd cynnes a byrbrydau am ddim ar amseroedd a drefnwyd (gweler y posteri sydd ynghlwm), a ariennir gan grant costau byw dewisol Llywodraeth Cymru. Cafwyd adborth gwych eisoes am gwsmeriaid yn treulio cyfnodau estynedig yn y llyfrgell, yn darllen, yn chwarae gemau ac yn cymdeithasu â ffrindiau. Mae staff wedi gwneud gwaith gwych o godi ymwybyddiaeth o'n cynnig gwasanaeth, yn enwedig annog cwsmeriaid i gofrestru ar gyfer ein llyfrgell ddigidol a chael mynediad at deitlau am ddim. Cafwyd adborth hyfryd gan Medi a'r tîm yn Llanrwst:

"Roedd sawl teulu yn chwarae'r gemau bwrdd wrth yfed eu diodydd cynnes. Roedd yn hyfryd gweld unigolion a ddaeth i'r llyfrgell yn dechrau sgwrsio â'i gilydd wrth wneud te. Dechreuodd dau a oedd wedi bod yn gweithio yma drwy'r dydd




Adam Price, Arweinydd Plaid Cymru yn ymweld â'r Ganolfan Ddiwylliant i ddysgu mwy am Lochesi Cynnes, a gafodd sylw ar newyddion BBC Cymru ac S4C.

mewn distawrwydd, siarad dros baned ac yn y diwedd buont yn sgwrsio am dros awr. Daeth un unigolyn i'r sesiwn Darllen ar y Cyd y bore yma a'r sesiwn Croeso Cynnes heno - mae'n rhaid eu bod wedi treulio dros 5 awr yn y llyfrgell heddiw, ac rwy'n amau bod y lloches gynnes, y cwmni, a'r diodydd cynnes yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn."

Rydym hefyd yn cynnig croeso cynnes (ac yn achos Myfi croeso cynnes yn ôl!) i staff newydd sy'n ymuno â'r adain ym mis Medi a mis Hydref gan obeithio eich bod yn ymgartrefu'n dda.

- Nia Jones a Myfanwy Jones - Cynorthwywyr Llyfrgell, Llyfrgell Llanrwst
- Natalie Hughes – yn ymuno â ni o'r tîm digwyddiadau fel Cydlynydd Rhaglen Creu Conwy.

Ar ôl peth oedi, mae adroddiad **Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru** 2020 / 2021 bellach wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 8.11.2022. Mae ein haelod cabinet Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Aaron Wynne, wedi gwneud sylw;

*'Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Conwy….yn parhau i berfformio'n dda, gan berfformio'n well na chanolrif Cymru ar nifer o feincnodau. Er gwaethaf heriau pandemig Covid-19 a'r heriau ariannol sylweddol a wynebir gan yr Awdurdod, mae'r gwasanaeth wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ganddynt."*

Mae ffigyrau ar ddefnydd y llyfrgell yn cynyddu. Ers mis Mehefin mae nifer yr ymweliadau ac ymholiadau misol wedi cynyddu, sy'n dyst i waith gwych ein staff ac i rôl hollbwysig ein llyfrgelloedd ar gyfer cymunedau ar hyn o bryd.

## Llyfrgelloedd Cymunedol

Sefydlwyd ein llyfrgelloedd cymunedol yn 2014, ac mae adolygiad o'r model bellach wedi'i gynnal i weld beth sydd wedi gweithio'n dda. Mae'r adroddiad yn argymell bod y cytundebau lefel gwasanaeth gyda phob llyfrgell gymunedol yn cael eu hadnewyddu, bod cyllid yn cael ei geisio i feithrin gallu a recriwtio gwirfoddolwyr newydd, a bod gwaith yn cael ei wneud i nodi ffrydiau ariannu cynaliadwy. Rwyf wedi bod yn cyfarfod â'r llyfrgelloedd cymunedol a chynghorau tref a chymuned i ddechrau sgwrs ynghylch sut i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad.

## Datblygu Staff

Mae tri aelod o staff wedi dechrau'r brentisiaeth Treftadaeth Ddiwylliannol Lefel 5, a phedwar ar y Radd Sylfaenol mewn Rheoli Llyfrgelloedd a Gwybodaeth.

## Gweithgareddau Llyfrgell

Trefnwyd nifer o ymweliadau poblogaidd â'n llyfrgelloedd sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Ymwelodd grwpiau Merched y Wawr â'r Ganolfan Ddiwylliant a Glasdir, Llanrwst, gan adael adborth gwych;

*Annwyl Gaynor, nodyn byr i ddiolch o waelod calon am gyfarfod rhagorol neithiwr, bu i ni ddysgu cymaint am y Llyfrgell a'r holl adnoddau sydd ar gael ar stepen drws. Gobeithio y bydd pawb yn awyddus i ddefnyddio'r gwasanaethau fwy ar ôl neithiwr!*

Daeth dros 20 o bobl i lansiad ‘And’, Isabel Adonis yn Llyfrgell Llandudno, mae Isabel wedi bod yn gefnogwr mawr i’n gwasanaeth ers blynyddoedd lawer. Mae nifer o weithgareddau wedi’u trefnu ar gyfer hanner tymor hefyd, gan gynnwys yr Awdur Diana Woodrow a fydd yn darllen ei stori *Little Yellow Boat* i blant dan 5 oed.




Mae gweithgareddau ar y thema Calan Gaeaf a Choelcerth hefyd wedi dechrau ar draws ein llyfrgelloedd. Roedd gan dîm Bae Colwyn bresenoldeb enfawr o 27 o blant, nifer mewn gwisg ffansi yn yr Amser Stori Arswydus ddydd Mawrth diwethaf – da iawn Penny a phawb.

